

MUDIAD CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU



**PWYLLGOR MATERION GWLEDIG
DYDD IAU, 13EG IONAWR 2022
ZOOM 7.30YH**

COFNODION

CADEIRYDD: Mr William Jones

IS-GADEIRYDD: Mr Dewi Davies

CROESO A CHYFLWYNIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod Is-bwyllgor Materion Gwledig.

AELODAU YN BRESENNOL

William Jones, Dewi Davies, Angharad Thomas (Sir Gâr), Elin Williams (Maldwyn), Dom Hampson-Smith (Gwent), Clare James (Maesyfed), Will Worthington (Maldwyn), Sion Lloyd-Evans (Maldwyn), Hefin Evans (Is-Gadeirydd CFFI Cymru), Caryl Haf (Cadeirydd CFFI Cymru), Claire Powell (CFFI Cymru).

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Rhodri Griffiths (Ceredigion), Hedd Pugh

CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Gan na chafodd y cofnodion eu cyflwyno yn y cyfarfod, cytunwyd byddai'r cofnodion yn cael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

Bydd unrhyw bwyntiau gweithredu o'r cofnodion cynt yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf.

GOHEBIAETH

Cadwch Gymru'n daclus wedi bod mewn cysylltiad â ni ynglŷn â hyrwyddo eu hymgyrch baw Cŵn. Roedd gofyn i CFFI Cymru un ai darparu amcan bris neu i greu fideo i gynorthwyo gyda'r ymgyrch. Penderfynwyd dylai CFFI Cymru ddarparu amcan bris a holi os oes gan Gadwch Gymru'n Daclus unrhyw gynnwys cyfryngau cymdeithasol allai CFFI Cymru rhannu.

FUW yn cynnal gweminar garbon ddydd Mercher, 19 Ionawr 2022 am 8am.

Dymuna Pwyllgor Rhyngwladol hysbysu'r pwyllgor o'r rhaglen deithio fyddai'n digwydd eleni. Daeth cais i drafod dyddiadau, gyda'r penderfyniad byddai ymweliadau ym mis Mai, Awst a Thachwedd, gyda dyddiadau i'w cadarnhau yn ddibynnol ar ddigwyddiadau siroedd a CFFI Cymru.

Daeth cais gan Paul Smith sydd â diddordeb dod i siarad gyda'r pwyllgor. Penderfynwyd gwahodd Mr Smith i'r gynhadledd yn ddibynnol ar y thema a benderfynwyd.

DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU MATERION GWLEDIG

Nodwyd bod yr ymgynghoriad ar gofrestru, adnabod a symud anifeiliaid wedi bod, diolchwyd i Dewi am gwblhau'r gwaith.

Menter ŵyn

Rhannodd Claire y wybodaeth ddiweddaraf am nifer yr ŵyn sy'n mynd drwy'r cynllun ar hyn o bryd a bod CFFI Cymru yn aros am ddiweddariad ar nifer yr aelodau sy'n cyflenwi.

Adborth y Ffair Aeaf

Nodwyd bod amseriad beirniadu stoc y carcass yr un adeg a'r gystadleuaeth ŵyn gorau.

TREFNIADAU AM DDIGWYDDIADAU I DDOD

Beic Cwad Cymru

Nodwyd fod cystadleuaeth Beic Cwad Cymru i'w cynnal yn Niwrnod Gwaith Maes 2022 ac yn dychwelyd i Ffair Aeaf 2022.

Cynhadledd

Bu trafodaeth p'un ai i gynnal cynhadledd rithiol neu wyneb i wyneb ar gyfer 2022. Cytunwyd, yn ddibynnol ar gyfyngiadau, dylai'r gynhadledd gael ei chynnal mewn person unai yn Llysfasi neu Glynllifon a phenderfynwyd dylai gymryd lle ar ddydd Sadwrn, 30 Ebrill.

DIWEDDARIAD CFFI CYMRU

Diweddarodd Claire ar faterion staffio a nododd bod swydd Swyddog Materion Gwledig yn cael ei ail-hysbysebu.

LLES AELODAU

Dim materion yn codi. Holwyd os allai canllawiau cael eu cyflwyno i'r cyfarfod i nodi'r hyn dylid eu crybwyll.

AGENDA'R CYFARFOD NESAF

- Trafodaeth am Agri I ac unrhyw deithiau eraill

UNRHYW FATER ARALL

Nodwyd bod yr ymgynghoriad TB ar agor ar hyn o bryd, ac awgrymwyd dylai MG darparu ymateb. Nodwyd bod Dr Hazel Wright, Uwch Swyddog Polisi FUW, wedi rhoi sgwrs i bwyllgor ymgynghorol FUW yn Sir Gaerfyrddin, ac awgrymwyd bod Hazel ynghŷd â chynrychiolydd NFU yn cael eu gwahodd. Nodwyd dylai'r cyfarfod gael ei gynnal un ai 26ain neu 27ain o Ionawr.

Nodwyd fod Hefin Evans, Is-Gadeirydd CFFI Cymru wedi ysgrifennu darn ar gyfer y Farmers Guardian, a braf oedd gweld son am waith CFFI Cymru a'r pwyllgor Materion Gwledig yn cael cydnabyddiaeth yn y wasg genedlaethol. Awgrymwyd bod CFFI Cymru i rannu'r gwaith ar y gwefannau cymdeithasol ac ar y wefan.

CYFARFOD NESAF - yr un diwrnod â Cyngor.